

Ffurflen monitro arian datblygu



Beth yw diben y ffurflen hon?

- Defnyddiwrch y ffurflen hon i ddisgrifio'r hyn rydych wedi gwario eich arian datblygu arno.
- Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon i'n hysbysu ni am newidiadau i'ch manylion cyswllt, mudiad, cyfrif banc neu fanylion eich prosiect (gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r gyllideb). Rydym yn disgwyl i chi drafod y newidiadau hyn gyda ni cyn iddynt ddigwydd, a chyflwyno'r ffurflenni perthnasol, y gallwch eu cael gan eich swyddog ariannu.

Sut i lenwi'r ffurflen hon

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cadw'r ffurflen hon ar eich cyfrifiadur eich hun a'ch bod yn defnyddio Adobe Reader fersiwn 10.0 neu'n ddiweddarach.
- Mae angen i chi ateb pob cwestiwn sydd wedi'i nodi gyda seren*. Ar ôl i chi orffen, dewiswch Gwirio bod fy ffurflen yn gyflawn ar waelod y dudalen.

Rhif adnabod y
prosiect

Enw'r mudiad

Enw'r prosiect

1. Beth ydych chi wedi'i gyflawni?*

Disgrifiwch y gweithgareddau datblygu rydych chi'u cwblhau.

Gallwch ysgrifennu hyd at 2,000 o nodau (tua 300 gair).

Cyfrif nodau:

00

2. Ar beth y gwnaethoch wario'r arian?*

Gan ddefnyddio'r penawdau o'ch ffurflen gais, rhwch y symiau gwirioneddol a wariwyd.

[illegible]

Esboniwch unrhyw wahaniaeth rhwng eich gwariant cynlluniedig a'ch gwariant gwirioneddol. Mae'n bosib y bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw ariannu nad ydych wedi'i wario atom er mwyn i ni ei ddefnyddio i ariannu prosiectau eraill. Trafodwch hyn gyda'ch swyddog ariannu. Gallwch ysgrifennu hyd at 2,000 o nodau (tua 300 gair).

SAMPLE

Cyfrif nodau:

00

Datganiad

Ticiwch y blwch i gadarnhau'r canlynol:

- mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn wir ac yn gywir ac mae wedi cael ei gymeradwyo gan gorff llywodraethu eich mudiad
- mae'r arian gan y Gronfa Loteri Fawr wedi cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl ar gyfer y prosiect a ddisgrifiwyd yn eich cais gwreiddiol, ynghyd ag unrhyw newidiadau rydych wedi cytuno arnyn nhw gyda ni ers hynny
- ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol i'ch prosiect neu i lywodraethiad eich mudiad ar wahân i unrhyw beth rydych wedi'n hysbysu ni amdano, yr ydym wedi cytuno iddo'n ysgrifenedig
- rydych wedi'n hysbysu ni am bob ffynhonnell ariannu arall ar gyfer eich prosiect ac nid ydych wedi derbyn ariannu dyblyg ar gyfer y gweithgareddau, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn talu amdanynt
- rydych wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau gwerth am arian ar gyfer eich prosiect trwy sicrhau nwyddau a gwasanaethau am brisiau rhesymol
- mae eich mudiad yn cadw cyfrifon a chofnodion llawn a phriodol, gan gynnwys anfonebau a derbynebau, sy'n dangos sut mae'r arian gan y Gronfa Loteri Fawr wedi cael ei ddefnyddio
- mae gan eich mudiad bolisi cyfle cyfartal ac, os yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus, polisi diogelu; mae'r polisiau hyn wedi'u rhoi ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn glynu wrth deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol
- nid yw eich mudiad wedi cael gwared ar unrhyw asedau a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr heb gael ganiatâd gennym ni ymlaen llaw
- mae eich mudiad yn dilyn yr holl reoliadau statudol cyfredol, a deddfau a rheoliadau eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect a'i waith gan gynnwys: glynu wrth yswiriant atebolrwydd cyflogwyr; yr isafswm cyflog cenedlaethol; y gyfarwydddeb oriau gwaith; iechyd a diogelwch; diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus; deddfwriaeth diogelu data a hawliau eiddo deallusol.

☐ Cytunaf*

Atodiadau

Atodwch unrhyw beth rydym wedi gofyn i chi ei anfon atom fel rhan o'n trefniadau monitro ar gyfer y rhaglen hon.

Peidiwch ag atodi unrhyw ffeiliau eraill (yn enwedig lluniau) gan y gallai hyn effeithio ar faint o amser y bydd yn ei gymryd i uwchlwytho eich ffurflen. Yn hytrach, anfonwch unrhyw beth yr ydych eisiau i ni ei weld yn uniongyrchol at eich swyddog ariannu trwy e-bost neu'r post.

Gallwch atodi ffeiliau hyd at gyfanswm o 8MB